# Canllaw i Ymgeiswyr
# Clybiau / Grwpiau Chwaraeon

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau cymunedol ac iechyd a lles eang a wneir gan glybiau a grwpiau chwaraeon o bob math. Gellir ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau, gweithgareddau ac offer sy'n cefnogi cyfranogiad mewn chwaraeon ar gyfer grantiau o'r Gronfa Ficro neu'r Gronfa Weledigaeth.

**Mae angen i glybiau ddangos bod:**

1. eu bod wedi'u cysylltu â'u corff llywodraethu (os oes un) ac esbonio sut maent yn gweithio gyda'r corff hwnnw.

2. eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw feini prawf sy'n ymwneud ag aelodaeth (e.e. timau, nifer y hyfforddwyr cymwys, cymorth cyntaf a dyfarnwyr), cyfleusterau, cyllid, gweinyddu a chydymffurfiaeth gyffredinol.

3. bod eu cais yn cael cefnogaeth gan y corff llywodraethu (os oes un). Os oes gan y clwb gynlluniau datblygu hirdymor a Chynllun Cyfleusterau cytûn, dylai'r cais ddangos sut mae'r hyn sy'n cael ei gynnig yn helpu i gyflawni'r Cynllun hwnnw.

4. bod y prosiect arfaethedig yn rhan o gynllun datblygu cytûn y Clwb ei hun os nad oes Cynllun Cyfleusterau ar waith.

5. bod ganddynt bolisïau ac arferion Clwstwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) clir – dylai unrhyw un sydd am gymryd rhan mewn prosiect neu weithgaredd a ariennir gael croeso i wneud hynny oni bai bod rhesymau dilys dros beidio. Rydym yn annog Clwbiau yn weithredol i fod yn gynhwysol, a dylai eu dogfennau llywodraethu a'u polisïau wneud hyn yn eglur. Gallwch weld Polisi EDI y Gronfa yma:

6. eu bod wedi ceisio cyngor arbenigol lle bo angen.

7. y bydd y gweithgaredd neu brosiect a ariennir yn dod â budd ychwanegol i'r Clwb a'i aelodau.

8. bod yswiriant a chaniatâd perthnasol ar waith.

9. bod Polisi Diogelu clir a Gweithdrefn yn cyd-fynd – wedi'i lofnodi, dyddiedig, gydag enw Swyddog Diogelu, wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd ac wedi'i weld gan holl aelodau'r Clwb.

Noder: nid yw cydymffurfiaeth â'r nodyn canllaw hwn yn gwarantu y bydd cais yn llwyddiannus – dim ond dangos rhai o'r elfennau rydym yn eu hasesu a'n meini prawf mae'n ei wneud.

# Canllaw i Ymgeiswyr
## Clybiau / Grwpiau Chwaraeon

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

Wrth i sefydliadau chwaraeon dyfu, fel arfer bydd angen ar sawl grŵp oedran, ac yn ddiweddar rydym wedi gweld cynnydd mewn grwpiau oedran unigol yn holi ac yn gwneud ceisiadau am gyllid.
Yn Pen y Cymoedd, gallwn dderbyn ceisiadau gan grwpiau oedran unigol neu adrannau Iau/Hŷn ond rhaid iddynt allu darparu'r dogfennau perthnasol ar gyfer eu tîm/adran unigol er mwyn bod yn gymwys. Os nad oes gan y tîm/adran unigol y dogfennau perthnasol, rhaid i'r cais gael ei gyflwyno gan y Prif Glwb.Sylwer, bydd ceisiadau gan grwpiau/adrannau oedran unigol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Ydych chi'n gwneud cais ar ran y Prif Glwb neu dîm/adran unigol?

**Prif Glwb**

**A oes gan y Clwb y dogfennau canlynol?:**
- Dogfen Lywodraethu
- Cyfrif banc yn enw'r tîm/adran
- Cofnod o gyfrifon / arian i mewn ac allan o'r sefydliad
- Dogfen a gweithdrefn Diogelu / polisïau a sicrwydd perthnasol

**Ie**

Bydd rhaid i'r Prif Glwb gyflwyno'r cais ar eich rhan.

**Na**

Mae'r dogfennau hyn yn ofynnol er mwyn gwneud cais i'r gronfa; os nad oes gennych y dogfennau hyn, ni fydd modd i chi wneud cais ar hyn o bryd.

**Tîm / Adran**

**A oes gan y tîm/adran y dogfennau canlynol?:**
- Dogfen Lywodraethu
- Cyfrif banc yn enw'r tîm/adran
- Cofnod o gyfrifon / arian i mewn ac allan o'r sefydliad
- Dogfen a gweithdrefn
- Diogelu / polisïau a sicrwydd perthnasol
- Llythyr cefnogaeth gan y prif glwb

**Ie**

Gall y tîm / adran wneud cais am gyllid eu hunain

**Na**

Gall y Prif Glwb gyflwyno cais